

CBAC Hanes UG Lefel 3



Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn edrych ar hanes y byd yn eang a chraff.

Dyma'r cwrs i chi os...

...ydych yn mwynhau ymchwilio a darganfod ffeithiau

...ydych yn chwilfrydig am ddigwyddiadau hanesyddol a'u heffaith ar ein byd modern

...ydych yn angerddol dros hanes

...oes gennych ddiddordeb mewn dilyn Llwybr y Dyniaethau, Llwybr y Gyfraith neu'r Llwybr Saesneg ac Ysgrifennu.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mewn Hanes UG a Safon Uwch, mae ffeithiau a chysyniadau i'w deall am sut mae'r gymdeithas



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

yr ydym yn byw ynddi wedi esblygu. Ond wrth astudio'r pwnc, byddwch hefyd yn datblygu sgiliau hanfodol megis dadansoddi ymchwil, gwerthuso a chyfathrebu.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu'n uwch arnoch, ac o leiaf gradd C mewn Saesneg a Mathemateg/Rhifedd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Pwnc academiaidd traddodiadol cydnabyddedig yw hanes, sy'n eich galluogi i fynd ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth. Mae cyfleoedd ar gael i raddedigion hanes mewn amrywiaeth o broffesiynau gan gynnwys y Gyfraith, Addysg, Busnes, Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a gwaith Amgueddfa.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi wneud cyfraniadau ariannol at gost teithio ymweliadau addysgol. Mae ymweliadau arferol yn cynnwys cestyll lleol a safleoedd treftadaeth, yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn teithiau tramor sy'n gysylltiedig â'r cwrs Hanes Uwch.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

